



Eich Preifatrwydd **Chi**
Eich Hawliau **Chi** 



Pam mae GIG Cymru
yn casglu gwybodaeth
amdanoch chi?

Mae'r daflen hon yn esbonio
pam mae GIG Cymru yn casglu
gwybodaeth amdanoch chi a
sut y gellir ei defnyddio.

I'ch helpu Chi

Mae sawl rhan o'r GIG megis ysbytai, Meddygon Teulu, Deintyddion, Optegwyr a Fferyllwyr Cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal i bobl Cymru.

Nod y bobl a'r sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yw darparu gofal o'r ansawdd uchaf i chi. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i ni gadw cofnodion am eich iechyd ac unrhyw driniaeth neu ofal a ddarparwn i chi. Efallai y byddwn yn cadw gwybodaeth amdanoch yn electronig neu ar bapur.

Mae angen y math hwn o wybodaeth i sicrhau:

- fod gan y bobl sy'n ymwneud â'ch gofal yr wybodaeth gywir a chyfredol i asesu eich iechyd, penderfynu pa driniaeth neu ofal sydd ei hangen arnoch, a phryd a ble y byddwch yn ei dderbyn. Gallant fod yn rhan o'r tîm gofal iechyd neu'n wasanaeth cymorth;
- y cewch wahoddiad i gael triniaeth reolaidd fel brechiadau a rhaglenni sgrinio perthnasol;
- y gellir adolygu ac asesu'r math o ofal a gawsoch a'i ansawdd er mwyn sicrhau eich bod chi ac eraill yn cael gofal effeithiol o ansawdd da yn y dyfodol; ac
- y gellir ymchwilio'n briodol i unrhyw bryderon neu gwynion.



Efallai y byddwch yn derbyn gofal gan

sefydliadau nad ydynt yn rhan o GIG Cymru, megis Gwasanaethau Cymdeithasol neu ddarparwyr gofal iechyd preifat a gwirfoddol. Os felly, bydd angen i ni rannu rhywfaint o wybodaeth amdanoch fel y gall pawb sy'n ymwneud â'ch triniaeth neu ofal weithio gyda'i gilydd er eich budd chi.

Helpu GIG Cymru

O bryd i'w gilydd, defnyddir gwybodaeth amdanoch chi i helpu i redeg a gwella'r GIG yng Nghymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- adolygu'r gofal a roddir i gleifion er mwyn sicrhau ei fod o'r safon uchaf posibl;
- cynllunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion y dyfodol;
- ymchwilio i gwynion, hawliadau cyfreithiol, digwyddiadau ac ymchwiliadau;
- adolygu ac adrodd ar berfformiad y GIG yng Nghymru; a
- sicrhau bod GIG Cymru yn dangos gwerth am arian.

Pan fyddwn yn defnyddio gwybodaeth amdanoch at y dibenion uchod, lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn lleihau neu'n dileu gwybodaeth sy'n golygu y gallech gael eich adnabod. Er enghraifft, bydd eitemau fel enw, cyfeiriad a dyddiad geni yn cael eu tynnu. Gelwir y broses o ddileu'r wybodaeth sy'n golygu y gallech gael eich adnabod yn anonymeiddio. Pan fydd angen dadansoddi symiau mawr o ddata – er enghraifft, i gynllunio gwasanaethau – rydym weithiau'n defnyddio proses o'r enw ffug-anonymeiddio. Mae hyn yn golygu disodli dynodwyr allweddol â chodau neu 'allweddi'. Mae hyn yn golygu nad yw'r bobl sy'n dadansoddi yn gweld gwybodaeth sy'n adnabod unigolion yn hawdd ond gallwn, os oes angen, ailadeiladu'r data i adnabod unigolion. Pan nad yw hyn yn bosibl, mae rheolau a chontractau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn ddiogel a bod ei defnydd yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Weithiau rydym yn defnyddio sefydliadau y tu allan i GIG Cymru i ddarparu gwasanaethau ar ein rhan. Er enghraifft, efallai y byddwn yn defnyddio gwaith archwilio neu gynnal a chadw systemau cyfrifiadurol pan fydd llawer iawn o wybodaeth yn cael ei storio'n electronig. Os felly, rhaid i'r sefydliadau allanol hyn fodloni rheolau llym y GIG a nodir mewn contractau neu mewn cyfraith sy'n ymwneud â diogelwch a diogelwch.


I helpu eraill

Efallai y bydd gwybodaeth amdanoch yn cael ei defnyddio i helpu i ddiogelu a gwella iechyd pobl eraill, ac i helpu i greu gwasanaethau newydd. Bydd hyn bob amser yn unol â chyfraith diogelu data a phreifatrwydd.

Lle bo angen ac i gydymffurfio â'r gyfraith, efallai y bydd yn rhaid i bobl sy'n ymwneud â'ch gofal roi gwybodaeth bersonol amdanoch i rai sefydliadau, er enghraifft os oes gennych glefyd heintus, a allai beryglu diogelwch eraill (e.e. COVID-19, llid yr ymennydd aciwt, y pas neu'r frech goch).

Mae angen gwybodaeth ar rai gwasanaethau i gefnogi ymchwil iechyd. Bydd hyn yn sicrhau:

- y gall sefydliadau gynllunio ymlaen llaw a darparu'r gwasanaethau cywir i'r bobl gywir;
- y gellir gwneud cynnydd o ran diagnosis a rheoli clefydau; ac
- y gellir gwneud cyffuriau'n fwy effeithiol, er enghraifft drwy leihau sgil-ffeithiau.



Gall GIG Cymru hefyd ddefnyddio gwybodaeth adnabyddadwy at ddibenion eraill, megis cefnogi Mentrau Gwella Ansawdd GIG Cymru ac Arolygon Cenedlaethol o Gleifion.

Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn gwneud gwybodaeth amdanoch yn ddiennw a, phan fo'n rhaid i ni ddefnyddio gwybodaeth adnabyddadwy, bydd rheolau cyfrinachedd llym yn berthnasol a gallent fod yn destun prosesau cymeradwyo trwyadl lle defnyddir gwybodaeth adnabyddadwy ar gyfer ymchwil.

Efallai y bydd gwybodaeth amdanoch hefyd yn cael ei rhannu pan fo'n ofynnol i ni yn ôl y gyfraith, gan gynnwys, pan fo'n ofynnol gan orchymyn llys neu i atal trosedd neu dwyll.

Sicrwydd a rheolaethau

Wrth ystyried a ddylid rhannu gwybodaeth amdanoch ag eraill sy'n ymwneud â'ch gofal, bydd sefydliadau GIG Cymru yn:

- sicrhau bod unrhyw un sy'n derbyn gwybodaeth o dan rwmedigaeth i'w chadw'n gyfrinachol ac yn ddiogel, ac i ddefnyddio'r wybodaeth at y diben(ion) penodedig yn unig;
- defnyddio systemau diogel i helpu i atal mynediad heb awdurdod at wybodaeth; a
- phan fo angen, rhoi cytundebau, trefniadau a chontractau rhannu gwybodaeth ar waith i reoli'r ffordd y caiff gwybodaeth ei rhannu.
- sicrhau bod unrhyw ddefnydd eilaidd o wybodaeth adnabyddadwy yn cael ei awdurdodi drwy fyrdau moeseg ymchwil a chyfrinachedd priodol.
- mae'n ofynnol i staff sy'n ymdrin â gwybodaeth bersonol gwblhau hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn gwneud staff yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfrinachedd a diogelwch data personol yn ogystal â chydymffurfio â Pholisïau GIG Cymru Gyfan yn ogystal ag unrhyw bolisïau neu weithdrefnau lleol.

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol amdanoch gyhyd ag y bydd angen i ni wneud hynny, fel ein bod yn gallu darparu ein

gwasanaethau a sicrhau ein bod yn darparu gofal o'r ansawdd uchaf i chi. Caiff ei chadw yn unol â'n gofynion cyfreithiol a'r gyfraith. Pan nad oes angen gwybodaeth amdanoch fwyach, byddwn yn sicrhau ei bod yn cael ei gwaredu mewn modd diogel.



Deddfau diogelu data a'ch hawliau

Pan fyddwn yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch, mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei phrosesu yn unol ag o leiaf un o'r seiliau cyfreithlon sydd ar gael o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Byddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch pan fydd angen a phan fo gennym sail gyfreithiol i wneud hynny; er enghraifft, pan fyddwn yn cyflawni ein swyddogaethau a'n pwerau cyhoeddus a nodir yn y gyfraith a/neu wrth gyflawni tasg er budd y cyhoedd a nodir yn y gyfraith.

Weithiau, efallai y byddwn yn gofyn am eich caniatâd. Fodd bynnag, nid oes ei angen arnom fel arfer i brosesu eich gwybodaeth, er enghraifft, i ddarparu gofal neu driniaeth i chi neu i'w rannu ag eraill sy'n ymwneud â'ch gofal.

Mae cyfreithiau sy'n rhoi hawliau penodol i unigolion o ran prosesu gwybodaeth bersonol amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys hawl i ofyn am y canlynol:

- cael gwybod am y rhesymau pam rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth;
- naill ai edrych ar eich cofnodion iechyd neu eu derbyn (p'un a ydynt yn cael eu cadw'n ysgrifenedig neu'n electronig); a
- gofyn i unrhyw wybodaeth bersonol anghywir gael ei chywiro; fodd bynnag, dylid nodi na ellir dileu cofnodion yn eich cofnod iechyd yn gyffredinol gan y dylent adlewyrchu barn broffesiynol y clinigwr ar yr adeg y gwnaed y cofnod. Er y bydd ceisiadau'n cael eu hystyried fesul achos.

Nid yw pob hawl unigol o dan gyfraith diogelu data yn absoliwt. Er enghraifft, mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu ond efallai y bydd angen i ni barhau i ddefnyddio gwybodaeth amdanoch i gyflawni dyletswydd gyfreithiol. Mae deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu i ni wneud hyn.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am eich hawliau gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a geir ar wefan y sefydliad sy'n darparu eich triniaeth neu ofal. Fel arall, siaradwch ag aelod o staff.

Rhagor o wybodaeth

Os hoffech wybod mwy am sut mae gwybodaeth amdanoch yn cael ei defnyddio, ewch i wefan y sefydliad sy'n darparu eich triniaeth neu'ch gofal. Fel arall, siaradwch ag aelod o staff.

Os oes gennych unrhyw bryderon am y ffordd y defnyddir gwybodaeth amdanoch, efallai yr hoffech drafod y rhain gyda'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am eich gofal neu Swyddog Diogelu Data'r sefydliad.

Mae Deall Data Cleifion yn rhoi rhagor o fanylion am sut y caiff data cleifion ei reoli gan gynnwys adnoddau ac astudiaethau achos ar sut y defnyddir data cleifion yn y GIG. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: understandingpatientdata.org.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwynion am y ffordd y mae'r GIG yng Nghymru yn defnyddio ac yn rheoli gwybodaeth amdanoch, ac nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gewch, mae gennych yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

I gofrestru eich pryder gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), defnyddiwch y porth cwynion sydd ar ei wefan: ico.org.uk/make-a-complaint

Sylwch, bydd yr ICO yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddarparu tystiolaeth o'r ffaith eich bod wedi gwneud eich cwyn yn gyntaf gyda'r sefydliad GIG Cymru perthnasol yr ydych yn cwyno amdano.

Gallwch hefyd gysylltu â'r ICO dros y ffôn, os hoffech gael cyngor ar eich hawliau neu sut i wneud cwyn - 0330 414 6421

